

# Adroddiad crynodeb i rieni a gofalwyr ar Ysgol Terrig

## Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2024

gan Estyn, Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

# Crynodeb

Mae Ysgol Terrig yn gymuned gynhwysol a chlòs. Mae pob aelod yn gofalu am ei gilydd yn yr ysgol yn dda, gyda staff cydwybodol yn meithrin lles ei gilydd a'r disgyblion yn fedrus. Mae'r disgyblion yn gwrtais ac aeddfed ac yn cydweithio a chyd-chwarae'n hapus a chytûn.

Mae athrawon yn darparu cwricwlwm cyffrous sy'n apelio'n feistrolgar at ddiddordeb y disgyblion. Mae awgrymiadau cyson y disgyblion a'u teuluoedd yn cyfrannu'n llwyddiannus at y sesiynau dysgu perthnasol a diddorol. Mae'r amgylchedd dysgu yn ysgogol y tu fewn a thu allan i'r ysgol, gyda'r disgyblion yn datblygu eu medrau'n effeithiol mewn amrywiaeth gyfoethog o weithgareddau dysgu yn yr ardaloedd hyn. Mae athrawon yn olrhain cynnydd y disgyblion yn effeithiol ac yn cefnogi eu lles yn fwriadus. Yn gyffredinol, nid yw athrawon yn sicrhau cyflymder addas i'r sesiynau dysgu. Mae trefniadau cyffredinol yr amgylchedd dysgu yn cyfyngu ar allu'r disgyblion i ddatblygu eu medrau dysgu annibynnol.

Mae datblygiad medrau llafar bron bob disgybl yn gryf, gyda'r disgyblion sy'n newydd-ddyfodwyr i'r Gymraeg a'u cyfoedion yn defnyddio geirfa eang a phatrymau cywir yn naturiol. Mae medrau ysgrifennu y rhan fwyaf yn datblygu'n dda; er hyn, nid yw medrau darllen y disgyblion yn datblygu'n ddigon effeithiol yn unol â'u hoed a'u cam datblygu yn y ddwy iaith. Mae medrau rhifedd a digidol y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n gadarn. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau digidol y disgyblion yn nodwedd gref o'r ysgol.

Mae'r pennaeth a'r staff wedi meithrin perthynas waith agos â'r rhieni. Mae'r rhieni'n cyfrannu'n fuddiol at themâu a sesiynau dysgu eu plant yn yr ysgol. Mae'r pennaeth yn arweinydd cydwybodol a gweithgar sy'n blaenoriaethu lles y disgyblion a'r staff yn llwyddiannus. Mae'r llywodraethwyr yn gefnogol i holl weithgareddau'r ysgol ac yn adnabod ei chryfderau a'i meysydd i'w gwella yn dda.

# Argymhellion a beth sy'n digwydd nesaf

**Rydym wedi gwneud dau argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella**

**A1** **Parhau i ddatblygu medrau darllen Cymraeg disgyblion**

**A2** **Sicrhau cyflymder addas i'r sesiynau dysgu er mwyn cefnogi medrau dysgu annibynnol disgyblion**

**Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhelliad o'r arolygiad.**

**Os hoffech ddarllen mwy am werthusiad Estyn o'r ysgol, dilynwch y ddolen hon i'r adroddiad llawn.**




Ⓗ Hawlfraint y Goron 2025: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 09/01/2025

Sylwer, efallai na fydd y ffotograffau sy'n cael eu dangos yn rhai o'r ysgol sy'n destun yr adroddiad hwn.